

**Ymgynghoriad 2: cyflwyniad gwesty ac arena**  
**Cwestiynau ac Atebion o 14 Gorffennaf 2021**

CWESTIWN		ATEB
1	Beth sy'n digwydd os bydd caniatâd cynllunio yn cael ei wrthod, neu os bydd y cynlluniau'n newid?	Yn ystod y cyfnod ymgynghori hwn, gall y cynllun newid mewn ymateb i adborth/awgrymiadau sy'n dod i law. Os gwrthodir caniatâd i'r cais cynllunio yn y pen draw, mae nifer o opsiynau posibl ar gael. Mae'r rhain yn cynnwys apelio'r penderfyniad i wrthod y cais cynllunio neu gyflwyno cais diwygiedig.
2	Rwy'n pryderu y bydd y gwesty'n cael gwared ar lawer o fannau gwyrdd a choed sydd wedi'u gwarchod. O ystyried bod diffyg mannau gwyrdd yn yr ardal sut y byddwch yn unioni hyn ar gyfer preswylwyr sy'n defnyddio'r parc hwn yn aml. Hefyd bydd cynnydd mewn sbwriel yn y parc - sut bydd hyn yn cael ei ddatrys?	Rydym yn ceisio sicrhau y byddwn yn gwneud yn iawn am unrhyw fannau gwyrdd sy'n cael eu colli yn yr uwchgynllun. Ein bwriad yw bod yr holl fannau gwyrdd newydd yn ddeniadol ac yn agored i'r cyhoedd eu defnyddio a'u mwynhau.
3	Cyn i ni adeiladu unrhyw beth newydd, oni fyddai'n well i'r ardal pe bawn yn adnewyddu ac ail-bwrpasu'r hen adeiladau presennol sydd eisoes yng Ngheir Fôr-forwyn?	Nid oes gan yr un o'r adeiladau presennol yng Ngheir Fôr-forwyn y gallu i gael eu haddasu'n llwyddiannus i fod yn arena 15,000 sedd. Mae arena o'r maint hwn wedi'i nodi fel y maint perffaith o ran darpariaeth a bydd yn caniatáu i Gaerdydd ddenu nifer fawr o ddigwyddiadau i'r ddinas.
4	Yn ôl y cynlluniau, mae'n ymddangos y bydd newidiadau mawr i'r ffyrdd/traffig fel cau Ffordd Garthorne. Ai dyma sy'n digwydd?	Bydd y cysylltiad o Ffordd Garthorne ar gau i gerbydau sy'n defnyddio Ffordd y Sgwner, ond bydd yn parhau ar agor fel cyswllt teithio llesol i gerddwyr a beicwyr.
5	A fyddai'n bosibl gwneud ochr a chefn ffasâd yr arena ychydig yn fwy diddorol i bobl leol? Hynny yw, nid dim ond blwch du. Mae'r ffasâd ar yr ochr flaen a'r tu mewn yn edrych yn dda.	I'r gorllewin rydym wedi ceisio cyfyngu cymaint â phosibl ar unrhyw ffenestri a allai edrych ar y tai preswyl cyfagos. I'r dwyrain rydym yn ystyried creu mynedfeydd, ymylon gweithredol ac animeiddiadau i'r ffasâd. Bydd y ddwy ochr yn elwa o dirwedd a strategaeth gerfluniol gref, ac rydym yn ystyried nodweddion dŵr i greu animeiddiad.
6	Pam nad ydych chi wedi gweithio gyda phobl leol wrth ddylunio'r prosiect hwn?	Rydym yn awyddus i glywed barn a phryderon preswylwyr am yr uwchgynllun a datblygiad yr arena, os gallwch roi adborth drwy <a href="mailto:info@atlanticwharfcardiff.co.uk">info@atlanticwharfcardiff.co.uk</a> byddai'n ddefnyddiol iawn. Yn ogystal, byddwn yn cynnal digwyddiadau ymgynghori pellach wyneb yn wyneb lle bydd mynychwyr yn gallu cyfrannu at y broses barhaus o ddatblygu'r dyluniad.
7	Bydd cynulleidfâ'r Arena sy'n teithio mewn car yn debygol o gyrraedd dros gyfnod cymharol fyr. Sut bydd llif y traffig yn cael ei reoli i mewn ac allan o'r maes parcio aml-lawr newydd er mwyn osgoi tagfeydd a dileu mynediad i Ffordd y Galiwn / Cwr y Dŵr? Ydych chi wedi ystyried gosod goleuadau traffig ar gylchfan y Ffordd Gyswllt Ganolog i reoli'r llif?	Bydd y maes parcio aml-lawr yn cael ei ddylunio gyda'r dechnoleg ddiweddaraf heb docynnau, sy'n golygu nad oes ciwiau hir o geir yn aros am beiriant tocynnau i brosesu eu mynediad ger rhwystr ffisegol. Bydd hon yn sefyllfa debyg wrth adael y maes parcio gan y bydd y taliad yn cael ei wneud ar ffôn clyfar neu ar droed. O ran cyrraedd y maes parcio, bydd yr unig fynedfa o'r rhan o Heol Hemingway sy'n parhau ar agor ac yn cysylltu â'r Ffordd Gyswllt Ganolog. Mae'r rhan hon yn ffordd ddeuol ac i'r trigolion hynny sy'n dymuno cael mynediad at Ffordd y Galiwn/Cwr y Dŵr, mae'r modelu'n dangos y bydd mynediad yn cael ei gynnal heb oedi andwyol. Ar hyn o bryd, nid oes dim oddi ar y bwrdd ac rydym yn gweithio'n agos gyda thîm priffyrdd Cyngor Caerdydd. Os yw canlyniadau'r modelu traffig yn dangos bod angen ymyriadau ar y rhwydwaith priffyrdd presennol, byddwn yn trafod hyn gyda swyddogion y Cyngor.
8	Mae James wedi siarad llawer am blannu: byddai gennyf ddi-ddordeb mewn gwybod mwy am gadw'r coed a'r llwyni sy'n bodoli eisoes, yn enwedig ym mhen deheuol Parc y Silwriaid a Ffordd y Sgwner (gyferbyn â'r gwesty)	Ein nod yw plannu mwy o goed nag sy'n cael eu symud. Rydym am sicrhau ein bod yn defnyddio coed brodorol, sy'n cefnogi bioamrywiaeth lle bynnag y bo modd. Bydd angen rhywfaint o ben deheuol Parc y Silwriaid ar gyfer y datblygiad ond bydd y coed sy'n cael eu colli yn cael eu disodli yn ystod camau dilynol yr uwchgynllun. Rydym hefyd yn awyddus i gyflwyno planhigion newydd yn yr ardal hon fel rhan o gam cyntaf y datblygiad.
9	A roddwyd unrhyw ystyriaeth i orchuddio ochrau'r arena â waliau gwyrdd?	Mae tirlunio ysgafn, gwyrddni a bioamrywiaeth i ochrau'r Arena yn rhan bwysig o'r strategaeth tirlunio. Gall waliau gwyrdd fod yn ychwanegiad gwych, ond mae heriau cynnal a chadw a gweithredol hirdymor iddynt hefyd, ac mewn llawer o achosion rhaid eu disodli wrth i'r adeilad heneiddio. O ganlyniad rydym yn bwriadu defnyddio'r gerddi glaw sy'n rhedeg i lawr ochr yr ardal i greu'r effaith fioffilig. Gyda choed a phlanhigion lefel isel yn rhedeg i lawr dwy ochr yr adeilad.
10	Pa gynlluniau sydd ar waith i sicrhau nad yw pobl sy'n teithio mewn car yn ceisio parcio ar Ffordd y Sgwner a'r ardal gyfagos?	Mae ein cynigion datblygu yn ceisio darparu maes parcio aml-lawr newydd yn ogystal â chynyddu capasiti maes parcio Cei'r Fôr-forwyn, sydd dim ond taith gerdded fer i ffwrdd. Mae Cyngor Caerdydd wedi mabwysiadu polisiau y mae'n rhaid i ni weithio ynddynt, i gydbwysu'r ddarpariaeth ar y safle tra'n annog defnydd o safleoedd parcio a theithio, teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus. Bydd angen gorfodi gorchmynion rheoleiddio traffig presennol sydd ar waith i ddiogelu trigolion lleol a sicrhau bod y rhwydwaith priffyrdd yn cael ei weithredu. Cyngor Caerdydd sy'n gyfrifol am y gorfodaeth hon a byddwn yn gweithio gyda'r Cyngor i sicrhau bod gorfodaeth addas yn cael ei rhoi ar waith i annog a gorfodi.
11	Holon ni am Ffordd y Sgwner yr wythnos diwethaf, ond nid yw'r cwestiwn wedi'i ateb ac mae'n ymddangos yr wythnos hon bod ffordd o hyd rhwng Llys Halliard a'r gwesty. Mi fyddai'n dda cael rhywfaint o eglurder ar hyn, diolch	Yn ystod cam cyntaf y datblygiad, ni fydd Ffordd y Sgwner yn llwybr trwodd. Bydd yn dod yn ffordd fynediad ar gyfer y gwesty arfaethedig a Neuadd y Sir yn unig.
12	Diolch am yr ateb ynglŷn â Ffordd y Sgwner - er eglurder, a yw hynny'n golygu y bydd yn aros yn ei safle presennol ar gyfer cam un? Diolch	Ar gyfer cam un datblygiad yr uwchgynllun, ni fydd Ffordd y Sgwner yn llwybr trwodd mwyach. Bydd yn gwasanaethu'r gwesty a Neuadd y Sir.

13	A fydd Ffordd y Sgwner yn cael ei chysylltu â Heol Hemingway ar gyfer ceir preifat preswylwyr?	Yn y cam cychwynnol, ni fydd Ffordd y Sgwner yn cysylltu â Heol Hemingway, ond pan fydd yr uwchgynllun wedi'i gwblhau bydd yna gysylltiad o Ffordd y Sgwner i Heol Hemingway. Rydym wrthi'n trafod gyda'r Cyngor, fel yr awdurdod priffyrdd, sut y byddai hyn yn gweithredu yn y dyfodol.
14	Beth am fannau gollwng a chasglu mewn ceir? Er enghraifft, pan ddaw pobl ifanc yn eu harddegau i'w cyngerdd cyntaf heb oedolion ond bod angen i rieni eu gollwng a'u casglu er diogelwch?	Bydd yr arena wedi'i chysylltu gan gysylltiadau trafniadaeth gyhoeddus gan gynnwys y Metro a dim ond taith gerdded fer i ardal eang o Gaerdydd ydyw. Byddwn yn annog pobl i deithio ar ddulliau cynaliadwy, ond os oes angen gollwng a chasglu, gellir gwneud hyn drwy ddefnyddio'r meysydd parcio.
15	Sut y byddwch yn atal pobl rhag parcio mewn strydoedd preswyl lleol ac achosi anhrefn i ni? Mae eisoes yn broblem pan fydd digwyddiadau mawr yn y bae. Nid ar gyfer digwyddiadau yn unig y mae hyn. Bydd yn broblem pan fydd mwy o bethau i'w gwneud ar draws y datblygiad	Cynigir darparu maes parcio aml-lawr newydd fel rhan o'r cynigion datblygu. Yn yr un modd mae cynigion i gynyddu capasiti maes parcio Ceir Fôr-forwyn sydd dim ond taith gerdded fer i ffwrdd. Mae Cyngor Caerdydd wedi mabwysiadu polisïau y mae'n rhaid i ni weithio gyda nhw i gydbwysu'r ddarpariaeth ar y safle ac annog defnydd o safleoedd parcio a theithio, teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus. Bydd angen gorfodi gorchmynion rheoleiddio traffig presennol sydd ar waith i ddiogelu trigolion lleol a sicrhau bod y rhwydwaith priffyrdd yn cael ei weithredu. Cyngor Caerdydd sy'n gyfrifol am y gorfodaeth hon a byddwn yn gweithio gyda'r Cyngor i sicrhau bod gorfodaeth addas yn cael ei rhoi ar waith i annog a gorfodi. Bydd hygyrchedd Bae Caerdydd yn y dyfodol yn newid sylweddol o'r hyn sydd ar gael heddiw gyda darpariaeth y Metro, y Cledrau Croesi a gwelliannau i'r gwasanaeth bysus a rheilffyrdd sy'n cael eu hyrwyddo gan Drafnidiaeth Cymru a Chyngor Caerdydd.
16	Mae dau o'r manau gollwng tacsis / bysus arfaethedig yn gyfagos i Gwr y Dŵr. Sut bydd cerddwyr yn cyrraedd y safleoedd hyn er mwyn osgoi safle Cwr y Dŵr?	Tynnwyd sylw at y manau gollwng bysus a thacsis arfaethedig a gyflwynwyd yn y weminar fel gwaith sy'n mynd rhagddo a, gan weithio gyda'r Cyngor, mae nifer o leoliadau'n cael eu hystyried a'u harfarnu ar hyn o bryd. Bydd y rhain yn cael eu cyflwyno yn y cais cynllunio yn y dyfodol ynghyd â rhagor o fanylion ategol.
17	Dim ond pwynt ynglŷn â'r gwesty mewn perthynas â'r tai a'r fflatiau sydd agosaf ato i'r gogledd. Rydw i wedi gwneud cyfrifiadau bras ar y sail ei fod 40m i ffwrdd o'n tai ac mae'n ymddangos y bydd yn cysgodi ein heiddo'n llwyr o ddiwedd mis Hydref i ddechrau mis Chwefror a hefyd yn golygu na fydd gennym unrhyw breifatrwydd. Mae hyn yn peri tipyn o bryder i ni gan nad oes dim byd i'r de ohonon ni ar hyn o bryd. Rwy'n gwerthfawrogi mai dim ond nifer fach o bobl y mae hyn yn effeithio arni ar gyfer prosiect mor fawr ond dyma ein prif bryder am y prosiect. Allwch chi gynnig unrhyw sicrwydd i ni ynglŷn â'r pryderon hyn?	Gwerthfawrogn eich pryderon ac mae'r berthynas rhwng yr adeilad a'r adeiladau preswyl presennol yn bwysig iawn i ni. Rydym wedi ceisio cynyddu'r pellter cymaint â phosibl o'r adeiladau presennol o fewn y safle sydd ar gael, ac fel rhan o'r broses ddylunio byddwn yn cynnal dadansoddiad cysgod o'r adeilad, ac os bydd angen byddwn yn edrych ar ffordd o liniaru unrhyw broblem.
18	Ni fydd hyrwyddo cynlluniau rheoli cynaliadwy i gontractwyr unigol yn eu hatal rhag gyrru i mewn. Mae ein strydoedd yn llawn dop ar hyn o bryd o faniau contractwyr sydd ar adegau'n parcio'n beryglus iawn oherwydd y datblygiad ar safle'r hen lanfa. Sut byddan nhw'n cael eu hatal yn hytrach na dim ond eu hannog i beidio?	Y strategaeth yw sicrhau bod rhagor o leoedd parcio ar gael, er mwyn osgoi cael gweithwyr yn parcio yn yr ardal breswyl. Rydym wedi cysylltu â ABP i holi am dir dros ben, i sicrhau bod parcio oddi ar y safle ar gael i'r holl weithwyr, a chadarnhawyd bod tir ar gael yn y cyffiniau.
19	Os na allwch reoli gweminar, sut byddech chi'n rheoli'r prosiect?	Diolch byth, nid yw cyflawni'r prosiect hwn yn dibynnu ar signal Wi-Fi di-dor yng nghartrefi ein Penseiri Tirlunio!
20	Pryd y cawn ni gyfle i drafod hyn yn hytrach na dim ond cael gwybod? Nid yw Covid yn esgus dros beidio â gwneud hyn	Mae'r bartneriaeth sy'n cyflwyno adfywiad Glanfa'r Iwerydd wedi ymrwmo i ymgysylltu'n ystyrion â'r gymuned. Cam cyntaf yr ymgynghoriad yw'r gyfres hon o weminarau ac maent yn ganlyniad i'r cyfyngiadau Covid presennol. Pan fydd amgylchiadau'n caniatáu, byddwn yn ceisio cynnal digwyddiadau eraill. Yn y cyfamser, hoffem glywed eich barn ar fanylion yr uwchgynllun a datblygiad yr arena. Cysylltwch â ni drwy <a href="mailto:info@atlanticwharfcardiff.co.uk">info@atlanticwharfcardiff.co.uk</a>
21	A fydd Ffordd y Sgwner yn cael ei chysylltu â Heol Hemingway ar gyfer ceir preifat preswylwyr?	Yn y cam cychwynnol, ni fydd Ffordd y Sgwner yn cysylltu â Heol Hemingway, ond pan fydd yr uwchgynllun wedi'i gwblhau bydd yna gysylltiad o Ffordd y Sgwner i Heol Hemingway. Rydym wrthi'n trafod sut y byddai hyn yn gweithredu yn y dyfodol gyda'r Cyngor, fel yr awdurdod priffyrdd.
22	Allwch chi roi unrhyw wybodaeth i ni am sut rydych chi'n bwriadu atal ymwelwyr â'r arena rhag parcio mewn manau preswylwyr?	Bydd angen gorfodi gorchmynion rheoleiddio traffig presennol sydd ar waith i ddiogelu trigolion lleol a sicrhau bod y rhwydwaith priffyrdd yn cael ei weithredu. Cyngor Caerdydd sy'n gyfrifol am y gorfodaeth hon a byddwn yn gweithio gyda'r Cyngor i sicrhau bod gorfodaeth addas yn cael ei rhoi ar waith i annog a gorfodi. Cynigir y bydd cyfarfodydd cyswllt rhwng trigolion/grwpiau ardal leol yn cael eu cynnal pan fydd yr arena'n agor fel y gellir ystyried unrhyw faterion a chytuno ar gamau gweithredu.
23	Mae'r tirlunio'n edrych yn wych ond a fydd unrhyw gyfle i gynnwys digwyddiadau cymunedol/gerddi gwirfoddol presennol yn y prosiect?	Byddem yn awyddus i drafod cyfleoedd pellach i integreiddio digwyddiadau cymunedol /gerddi gwirfoddol.
24	Pryd fydd gennym fwy o fanylion am y gwesty?	Bydd y gwesty arfaethedig yn cael ei weithredu gan Travelodge a bydd yn cymryd lle eu gwesty presennol, a fydd yn cael ei ddymchwel fel rhan o'r ailddatblygiad.

25	Nid yw cael gwesty 18m o uchder 40m o'ch tŷ yn gefndir diddorol!	Rydym wedi ceisio sicrhau'r pellter mwyaf posibl o'r adeiladau presennol o fewn cyfyngiadau'r safle. Yn amlwg, mae'r safle presennol yn agored a bydd y profiad stryd yn wahanol i'r cyflwr presennol. Fodd bynnag, mae 40m yn stryd lydan, yn ôl safonau trefol, a byddwn yn ceisio defnyddio coed a thirwedd i gyfoethogi'r cefndir.
26	A allai dyluniad yr arena gyfeirio at elfennau o dreftadaeth gyfoethog Bae Caerdydd?	Rydym wir yn gobeithio gwneud y gorau o dreftadaeth gyfoethog y Bae. Er enghraifft, er bod cymeriad Canolfan y Mileniwm yn cael ei ddylanwadu gan y copr a'r llechi a allforiwyd i'r byd, rydym yn awyddus i ddathlu etifeddiaeth allforio glo ac ynni'r ffwrneisi dur cyfagos. Bydd y cynllun tirwedd hefyd yn ceisio cynnwys micro-ymyriadau sy'n gysylltiedig â threftadaeth y Bae.
27	Os yw Ffordd Garthorne ar gau i Ffordd y Sgwner, yna mae'n golygu y bydd trigolion Plaza 1 (Amalfi House ac ati) bellach yn sownd pan fydd digwyddiadau ar Rodfa Lloyd George (hanner marathon ac ati). Sut bydd hyn yn cael ei reoli? Mae'n teimlo bod y cynllun hwn yn ergyd enfawr i'w preswylwyr hynny.	Bydd y cysylltiad o Ffordd Garthorne ar gau i gerbydau sy'n defnyddio Ffordd y Sgwner, ond bydd yn parhau ar agor fel cyswllt teithio llesol i gerddwyr a beicwyr. Yn y dyfodol pan fydd digwyddiadau fel yr hanner marathon yn mynd rhagddo, bydd angen i'r cynllun digwyddiad ystyried y dull o gael mynediad i'r eiddo.
28	Nid yw cael gwared ar y ffordd sy'n cysylltu Ffordd y Sgwner i Heol Hemingway fel rhan o gam 1 yn ystyried preswylwyr y mae'n rhaid iddynt deithio i mewn ac allan o'u heiddo. A ellir ychwanegu hyn at gynlluniau cam 1?	Rydym wedi ystyried hyn ond yn anffodus nid yw'n bosibl yng nghanam 1.
29	Diolch	Diolch yn fawr.
30	Diolch bawb	Diolch yn fawr.